Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Rhanbarth Llais Gwent - Crynodeb Ymweld

## Ysbyty Ystrad Fawr – Ward Oakdale

Awst 2023



**Fformatau hygyrch**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

Clos William Brown

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiswales.org

www.llaiscymru.org

# CEFNDIR

Corff statudol annibynnol yw Llais, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Fel rhan o'n cynllun blynyddol, mae Llais Rhanbarth Gwent wedi datgan ein hymrwymiad i gynnal ymweliadau ward wyneb yn wyneb ac i gael adborth gan bobl ar yr adeg y maent yn derbyn gofal.

Ar 2il o Awst 2023, aeth ein hymwelwyr gwirfoddol i ward Oakdale yn Ysbyty Ystrad Fawr yng Nghaerffili. Pwrpas yr ymweliad hwn oedd sefydlu lefel boddhad pobl wrth aros ar y ward hon.

I gwblhau'r ymweliad hwn, ymgysylltodd ein gwirfoddolwyr â phobl ar y ward hon a nodi eu hadborth gan ddefnyddio arolwg.

Mae'r crynodeb hwn yn adrodd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym am eu profiad o aros yn Ysbyty Ystrad Fawr, ward Oakdale.

# YR HYN A DDYWEDODD POBL WRTHYM

Siaradodd ein cynrychiolwyr ymweld ag wyth o bobl pan ymwelon nhw â ward Oakdale.

## 1.1 Y ward:

Derbyniodd tri o bobl daflen wybodaeth wrth gyrraedd y ward a theimlent fod y daflen yn esbonio popeth yr oedd angen iddynt ei wybod. Roedd pawb yn hapus gyda'r oriau ymweld sy'n galluogi teulu a ffrindiau i ymweld.

## 1.2 Cyfathrebu

Dywedodd un person wrth ein tîm ymweld fod ganddynt broblemau cyfathrebu ar y ward gan ei fod yn fyddar. Fodd bynnag, roedd pawb yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

## 1.3 Staff:

Ar y cyfan, rhoddodd pobl adborth cadarnhaol pan wnaethom ofyn cwestiynau iddynt am eu rhyngweithio â staff ar ward Oakdale. Roedd y bobl yn teimlo bod y staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar, ac roedd y staff yn cyflwyno eu hunain cyn iddynt ddarparu gofal. Er, dywedodd un person wrthym fod *“rhai [staff] ddim yn siarad!”*

Teimlai pawb bod y staff yn gwrando arnynt pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu gofal a'u triniaeth (roedd hyn hefyd yn berthnasol i'w perthnasau/cynrychiolwyr).

Roedd pobl ar ward Oakdale yn teimlo bod “gan amlaf” digon o staff yn ystod y dydd a’r nos ar y ward hon.

## 1.4 *Swnwyr:*

Roedd yn braf nodi bod pawb y siaradodd ein tîm ymweld â nhw ar y ward hon, bod ganddynt swnyn yn gweithio ac yn gallu ei chyrraedd. Ymatebwyd i swnwyr yn amserol pan gânt eu defnyddio.

## 1.5 *Cysur:*

Roedd y rhan fwyaf o bobl ar y ward hon yn teimlo'n gyfforddus ac roedd ganddynt ddigon o glustogau a blancedi. Roedd pobl yn cael eu hannog i godi a symud o gwmpas yn ddiogel.

## 1.6 *Gofal personol:*

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn gallu cael cawod a golchi eu gwallt mor aml ag y dymunent. Er i ddau o bobl ddweud wrthym eu bod yn teimlo na allent gael cawod neu olchi cymaint ag y dymunent, oherwydd nid oeddent yn gallu gwneud hyn yn annibynnol eto.

## 1.7 *Cyfleusterau ar y ward:*

Roedd gan bobl eu dyfeisiau electronig eu hunain yn eu bae gwely sengl, a oedd hefyd yn golygu bod ganddynt eu teledu a radio eu hunain. Roedd gan bobl fynediad at bapurau newydd dyddiol os oeddent eu heisiau.

## 1.8 *Diflastod ac unigedd:*

Dywedodd tri o bobl wrthym eu bod yn ymwybodol bod ystafell ddydd neu ystafell gymunedol y gallent ei defnyddio. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod dryswch ynghylch a oedd ardal neu ystafell breifat y gallent ei defnyddio i wneud galwadau ffôn.

Dywedodd pobl wrthym nad oedd unrhyw weithgareddau ar y ward hon y gallent gymryd rhan ynddynt.

Dywedodd pedwar o bobl wrthym nad oeddent yn teimlo’n ddiflas nac yn unig wrth aros ar ward Oakdale. Fodd bynnag, dywedodd eraill wrthym eu bod weithiau'n teimlo fel hyn.

## 1.9 Amser bwyd:

Gofynnom i bobl raddio'r canlynol:

| | DA IAWN | DA | IAWN | GWAEL | GWAEL |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd y bwyd** | 4 | 2 | | 1 | |
| **Tymheredd y bwyd** | 2 | 2 | 1 | 2 | |
| **Cyflwyniad y bwyd** | 2 | 3 | 1 | 1 | |
| **Meintiau dognau** | 3 | 2 | 2 | | |
| **Dewis o fwyd ar y fwydlen** | 2 | 2 | 2 | 1 | |

Dywedodd un person wrthym fod *"digon o ddewis"* i ddewis ohonynt ar y fwydlen, ond weithiau nid yw ansawdd y bwyd yn dda.

Dywedodd rhywun a ddywedodd fod ansawdd, tymheredd, cyflwyniad, a'r dewis o fwyd yn "wael" wrth ein tîm ymweld mai'r rheswm am hyn oedd nad oeddent yn hoffi'r bwyd ar ward Oakdale.

Roedd y rhan fwyaf o bobl bob amser yn derbyn y pryd yr oeddent wedi'i archebu ac roeddent yn hapus gyda lefel y cymorth a gawsant i fwyta ac yfed. Er, ni roddwyd dewis i dri o bobl o ble i fwyta eu prydau.

Roedd pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo a dywedasant wrthym fod byrbrydau ar gael iddynt yn ystod y dydd a'r nos. Hefyd, roedd pobl yn teimlo bod eu jygiau dŵr yn cael eu newid yn ddigon aml.

## 1.10 Sylwadau pobl:

Fe wnaethom ofyn, *"Beth sydd wedi bod yn gadarnhaol am eich amser ar y ward?"*

Sylwadau:

*"Helpu fi i wella!"*

*"Gofal da."*

*“Mae’r Ffisiotherapyddion dyddiol wedi gwella fy symudedd yn sylweddol.”*

*“Dechrau therapi yn brydlon.”*

*“Yn enwedig y Nyrsys, cwrdd â phobl a’r Meddygon.”*

*“Mae'r staff yn wych ac yn gyfeillgar. Mae cefnogaeth yno.”*

*“Faint o ofal maen nhw'n ei roi i chi, pan fydd ar gael.”*

Gwnaethom hefyd ofyn i bobl ddweud wrthym a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau a allai wella eu harhosiad ar y ward.

Sylwadau:

*“Na, maen nhw wedi bod yn wych.”*

*“Dim byd alla i feddwl amdano.”*

*“Rhyddhad diflastod.”*

*“Byddai ystafell ddydd wedi bod yn braf. Weithiau pan fyddan nhw [staff] yn brysur, mae'n rhaid i chi aros."*

*“Rhaid i mi ailadrodd fy hun gyda gwahanol feddygon a staff.”*

*“Nid yw pawb wedi bod mor gymwynasgar.”*

# ARGYMHELLION

Hoffai Llais Rhanbarth Gwent i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ystyried yr argymhellion canlynol:

a) A fyddech cystal â rhannu'r sylwadau cadarnhaol a roddwyd drwy gydol yr adroddiad hwn â staff ward Oakdale.

b) Ystyried cynnig gweithgareddau i bobl ar y ward hon. Gallai hyn leihau diflastod ac unigrwydd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty

c) Sicrhau bod pobl sydd â phroblemau cyfathrebu yn gallu cael cymorth priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol.

d) Sicrhau bod pobl sy'n aros ar y ward hon yn ymwybodol o'r ystafelloedd cymunedol/dydd y gallant eu defnyddio yn ogystal ag ardal breifat y gallant eu defnyddio i wneud galwadau ffôn neu i gael sgyrsiau preifat.

**Atodiad 1 – Canlyniadau Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Nifer y bobl a lenwodd y cwestiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

| **Beth yw eich dewis iaith?** | |
|---|---|
| Saesneg | Arall |
| **7** | |

| **Gyda pha ryw ydych chi'n uniaethu?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyn/bachgen | Menyw/merch | Anneuaidd | Arall | Mae’n well gen i beidio â dweud |
| **3** | **4** | | | |

| **Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson traws?** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Mae’n well gen i beidio â dweud |
| | **3** | |

| **Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?** | | | |
|---|---|---|---|
| Anrhywiol | Deurywiol | Hoyw | Lesbiaidd |
| **1** | | | |
| Heterorywiol/Syth | Panrywiol | Arall | Mae’n well gen i beidio â dweud |
| **6** | | | |

| Mis a Blwyddyn Geni | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ion | Chwef 1930-50 | Maw | Ebr | Mai 1930-50 | Meh |
| | **1** | | | **1** | |
| Gorff 1930-50 | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag 1940-60 |
| **3** | | | | | **2** |

| Beth yw eich ethnigrwydd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | | | | |
| Bangladeshaidd | Tseiniaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
| | | | | |

| Du neu Ddu Prydeinig | | |
|---|---|---|
| Bangladeshaidd Tseiniaidd | Indiaidd Pacistanaidd | Arall |
| | | |

| Cymysg | | | |
|---|---|---|---|
| Asiaidd a Gwyn | Du Affricanaidd a Gwyn | Du Caribïaidd a Gwyn | Arall |
| | | | |

| Gwyn | | | |
|---|---|---|---|
| Cymraeg/Saesneg/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsiwn, Roma, neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
| **7** | | | |

| Grŵp Ethnig arall | | |
|---|---|---|
| Arabaidd Unrhyw arall | Gwell gennyf beidio â dweud | Arall |
| | | |

| Beth yw eich crefydd neu gred? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristionogaeth | Hindwaeth | Islam | Iddewiaeth |
| | **7** | | | |
| Sikhaeth | Anffyddiaeth | Dim crefydd | Gwell gennyf beidio â dweud | Arall |
| | | | | |

| Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **6** | **1** | |

| Ydych chi'n gofalu am, neu'n rhoi unrhyw cymorth neu gefnogaeth i aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog oherwydd anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl, neu broblemau sy'n gysylltiedig ag oedran? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Mae’n well gen i beidio â dweud |
| | **7** | |

| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Mae’n well gen i beidio â dweud |
| | **6** | |

| Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich statws ariannol orau? | |
|---|---|
| Mae gennyf fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a llawer iawn o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden. | **1** |
| Mae gen i fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol, ac ychydig bach o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden. | **3** |
| Mae gen i ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol a fawr ddim arall | |
| Nid oes gennyf ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac weithiau yn rhedeg allan o arian | |
| Nid wyf yn gwybod/mae’n well gen i beidio â dweud | **2** |

**Atodiad 2**

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n andwyol, yn gadarnhaol, yn wahaniaethol gan bolisi/gweithgaredd/adroddiad Llais neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | | | | |
| Oed | X | | | |
| Anabledd | X | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | X | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Iaith Gymraeg | | | X | Mae adroddiadau ac arolygon ar gael ac yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog |
| Ieithoedd Eraill | | X | | Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau Dynol | X | | | |
| Lefel tlodi | X | | | |
| Personau gyda dibynyddion | X | | | |
| Preswylfa wledig | X | | | |
| Cymunedau Sipsiwn, Roma, a theithwyr | X | | | |
| Yn agored i niwed yn ddigidol | X | | | |

**Asesiad risg**

| **A oes unrhyw risgiau yn codi o weithredu'r polisi hwn?**<br>Amh |
|---|
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br>Amh |
| **Iaith Gymraeg**<br>Mae'r ddogfen/polisi/adroddiad hwn wedi'i asesu yn unol â'n gofynion Iaith Gymraeg ar gyfer safonau:<br>37,38<br>69,70,71<br>Wrth benderfynu ar effaith, gallwn ddangos tystiolaeth o'r canlynol:<br>Mae holl ddogfennau cyhoeddus Llais ar gael yn Gymraeg a Saesneg.<br>Mae Llais yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br>Effaith gadarnhaol -<br>Safonau 37, 38 – Cynhyrchir a chyhoeddir pob dogfen gyhoeddus yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Safonau 69-71 - Rydym yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.<br>Effaith negyddol – Dim |